PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 365 | IONAWR 2014



Cyfleuster newydd t10



Perfformio yn y Borth t10




Dathlu yn y Garn t16

# Clarach a'r Borth ar ôl y stormydd






Lluniau: Atgof – Iestyn Hughes



Mwy o luniau o'r Borth ar t.11

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Chwefror

**Deunydd i law: Chwefror 7 Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 19**

**IONAWR 15** Nos Fercher Y Parchg Beti Wyn James yn trafod A wnaiff y gwragedd...? Profiad un fenyw yn y weinidogaeth Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**IONAWR 17** Nos Wener Ffurfio Llywodraeth Cymru'n Un: cip y tu ôl i'r llenni. Ceri Williams, Caerdydd (Dolau gynt) Cymdeithas y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**IONAWR 22** Nos Fercher Pwy oedd yma gan mlynedd yn ôl (rhan 1) – Gwilym Jenkins yn dangos lluniau yn festri Bethel, Tal-y-bont am 7.30 Pris : £3 – yr elw i Apêl Haiti, Undeb yr Annibynwyr.

**IONAWR 24** Nos Wener Noson Cwis, Gwin a Chaws yn Neuadd yr Eglwys am 7.00. Tîm o bedwar person a thâl o £5 y pen. Cwis Feistr: Robert Hughes-Jones.

**IONAWR 24** Nos Wener Cwis, Caws a Gwin yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys.

**IONAWR 29** Nos Fercher Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion yn Yr Hen Ysgoldy Llanddeiniol am 8.00

**CHWEFROR 5** Nos Fercher. Pwy oedd yma gan mlynedd yn ôl (rhan 2) – Gwilym Jenkins yn dangos lluniau yn festri Bethel, Tal-y-bont am 7.30 Pris : £3 – yr elw i Apêl Haiti, Undeb yr Annibynwyr.

**CHWEFROR 14-15** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Blodeuwedd' yn Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30. Tocynnau 01970 622889

**CHWEFROR 15** Nos Sadwrn Noson wobrwyo y Selar yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau o 5.00 ymlaen.

**CHWEFROR 19** Nos Fercher Glaw a hindda - blwyddyn trwy'r lens - Iestyn Hughes yn dangos ei luniau. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30. Bydd cyfle i brynu cardiau o'r lluniau am bris gostyngol.

**CHWEFROR 21** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Camera'r Tincer**
Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Y Tincer ar dâp**
Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Rhagfyr 2013.**

**£25** (Rhif 235) Eurgain Rowlands, Hafod Heli, Y Borth.
**£15** (Rhif 85) Anwen Pierce, 3 Brynmeillion, Bow Street.
**£10** (Rhif 20) Alwen Fanning, 69 Ger-y-llan, Penrhyn-coch.

**Enillwyr Cystadleuaeth y Nadolig**
**£60** (Rhif 53) Elwyn Ioan, Ffordd y Drindod, Aberystwyth.
**£40** (Rhif 40) D Bryn Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn **Mercher Rhagfyr 18.**

Os oes rhai eisiau ymuno â Chyfeillion Y Tincer cysylltwch â Bethan Bebb. £5 y flwyddyn am rif o mis Ionawr.




## 30 MLYNEDD YN OL

Aelodau presennol Pwyllgor Cangen y Borth o Sefydliad y Merched. (O'r *Tincer* Ionawr 1984)

Annwyl Olygydd,
Wyddoch chi fod rhan fwyaf o ardal y Tincer yn rhan o ardal Biosffer Dyfi, sydd wedi ei gydnabod gan UNESCO fel Gwarchodfa Biosffer? Mae Ynys-las, y Borth, Genau'r-glyn, Bow Street, Clarach, a'r cyffiniau yn rhan o'r ardal arbennig hon: gallwch ddysgu mwy amdano ar ein gwefan biosfferdyfi.org.uk. Diolch i'r statws yma, a chymorth Cronfa Eleri, mae cyfle i osod nifer o baneli dehongli yn yr ardal eleni. Bydd y paneli yn cynnwys map Biosffer Dyfi. Bydd lle wrth y map ar gyfer gwybodaeth am dreftadaeth leol - boed hynny'n ymwneud â phobl neu natur. Rydym eisiau i chi, bobl yr ardal, gael dweud eich dweud am beth fydd yn cael ei gynnwys. Beth am gysylltu â ni (robin@biosfferdyfi.org.uk neu 01654 703965) ac awgrymu hanesion, ffeithiau neu luniau o'r ardal? Byddem yn croesawu awgrymiadau hefyd ynglŷn â lle i osod y mapiau. Bydd cyfarfodydd yn yr ardal lle gallech weld a thrafod y syniadau - manylion yn rhifyn nesaf *y Tincer*!

**Robin Farrar**

Hwylusydd Prosiectau Biosffer Dyfi
01654 703965 / 07717 102923
Y Plas, Machynlleth SY20 8ER
**www.biosfferdyfi.org.uk**
**www.ecodyfi.org.uk**




## Cofiwch gysylltu â ni


**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.**
**Ffôn 01974 261758 07792457816**
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741


ytincer@googlemail.com

# PENRHYN-COCH

Oedfaon Horeb
Gweler hefyd http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php

**Ionawr**

19 10.30 Ysgol Sul 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
26 10.30 Oedfa Llan Llanast Gweinidog

**Chwefror**

2 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
9 10.00 Oedfa gomisiynu Zoe Glynne Jones yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
16 10.30 Ysgol Sul 2.30 Oedfa bregeth Y Parchg Peter M. Thomas
23 10.30 Ysgol Sul 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog



Cylch Meithrin Trefeurig

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Ionawr, 12 a 26 Chwefror. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Plygain

Cynhaliwyd y 23ain blygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch nos Iau 19fed Rhagfyr. Gweinyddwyd gan y Parchedig Ronald Williams a darllenwyd y llith gan y Parchg Judith Morris. Cymerwyd rhan gan blant Ysgol Penrhyn-coch, Parti'r Penrhyn, Marianne Powell, Glenys Jenkins, Parti Glanrafon, Carwyn, Emyr a Liz; Linda, Mari a Gwenno; Parti'r Parc; Huw a Rhian; Cantorion Aberystwyth; Efan Williams; Triawd Glanrafon; Triawd Rhiannon, Trefor ac Eleri a Cantre'r Gwaelod Cyfranwyd y casgliad o £263.75 i'r Ystafell Fyw, Caerdydd. Dilynwyd y gwasanaeth gan swper yn Neuadd yr Eglwys.

### Urdd y Gwragedd Sant Ioan

Daeth Dr Clive Williams Cae Mawr, atom i gyfarfod cynta'r flwyddyn gyda sgwrs ffraeth a llawn hiwmor mae yn un o lawer o sgyrsiau sydd yn ei feddiant. Mae Dr Clive yn wreiddiol o Fro Morgannwg ac ar ôl bod yn ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod yn Nulyn death i'r Brifysgol yn Aberystwyth fel darlithydd hŷn, ac yna cyn ei ymddeoliad bu yn Brif Ddarlithydd yn yr Adran Addysg. Mae wedi byw yng Nghae Mawr ers 45 mlynedd; mynychodd ei dri phlentyn Ysgol Gynradd Penrhyn-coch; mae'n aelod selog o'r Ymddeolwyr ac yn cystadlu yn Sioe Penrhyn-coch yn adran gwaith llaw efo'i waith coed cywrain. Mae'n flaenor yng Nghapel St Davids, Stryd y Baddon Aberystwyth ac yn ddyn prysur iawn. Diolchwyd iddo am noson hwylus a chartrefol.

### Cylch Meithrin Trefeurig

Bu mis Rhagfyr yn adeg prysur iawn i'r Cylch yn y Caban newydd. Ar 14 o Ragfyr fe gawsom brynhawn agored yng nghwmni Sion Corn. Fe fu Sion Corn yn ymweld â ni hefyd yn ein parti Nadolig. Buom ar ymweliad i'r Eglwys i weld y coed Nadolig wedi eu haddurno ac fe fu'r Parchg Ronald Williams yn sgwrsio gyda'r plant. Diolch yn fawr iddo.Cynhaliom gyngerdd Nadolig yn Horeb a diolch yn fawr i'r Parchedig Judith Morris, Ceri Williams a Ceris Gruffudd am eu cyfraniad i greu awyrgylch hyfryd a rhoi naws y Nadolig i ni.

Dymunwn yn dda i Stefan, Chelsea, Lily-Ann, Hannah, Cari, Osian, Freya a Lois sydd wedi symud ymlaen i'r Dosbarth Derbyn. Dymunwn hefyd pob llwyddiant i Mrs Delyth James sydd wedi ein gadael ni am swydd newydd. Diolch yn fawr iddi am ei gwaith dros y naw mlynedd diwethaf. Fe groesawn Mrs Tracy Cleary sydd wedi ymuno fel dirprwy arweinydd i gefnogi Mrs Jackie James, ein harweinydd newydd.

Diolch hefyd i Mr.Pugh-Evans a staff yr ysgol am gyd-weithio mor dda gyda'r Cylch ac am wahodd plant y Cylch i ymuno yn eu dathliadau dros yr Ŵyl.

Hoffwn i gyd fel staff ddiolch yn fawr i'r rhieni am y llu o anrhegion Nadolig.



### Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

Dyma gais am ymgeiswyr bedydd esgob. Mi fydd dosbarthiadau conffirmasiwn yn cychwyn ym mis Chwefror, yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch, dan arweiniad y Parchedig Ronald Williams. Cynhelir y bedydd esgob ei hun ym Mhenrhyn-coch ar y penwythnos cyntaf ym mis Mai.

### Edmygu

Mae'n rhaid edmygu Fflur Fychan – welwyd ar y rhaglen O'r galon yn ystod y mis. Parlyswyd Fflur gan y cyflwr prin Transverse Myelitis. Edmygwyd ei phenderfyniad wrth geisio gwellhad a'r ffordd yr oedd y teulu - ei gŵr Owain a'u tair o ferched bach, Mari, Lisa a Nansi yn dygymod â'r sefyllfa. Dymuniadau gorau iddynt.

### Cinio Nadolig

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Gymuned ar yr 11eg o Ragfyr yn Neuadd yr Eglwys. Cafwyd amser difyr yng nghwmni ein gilydd a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd gan Mairwen yn ei dull arferol am yr holl waith oedd pawb wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ac am y croeso a'r



Parti Nadolig y Brownies gyda Sion Corn



Ddechrau Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth yn Horeb lle cyflwynwyd bocsus ar gyfer Operation Christmas Child.

gofal mae pob un o'r henoed yn ei gael yn y ciniawau pob amser. Diolchwyd i blant Ysgol Penrhyn-coch am ddod atom yn rheolaidd i'n diddori.

### Neuadd y Penrhyn

Cafwyd gyrfa chwist arbennig iawn yn y neuadd ar 16eg o Ragfyr. Roedd pobl wedi dod yno o bob cyfeiriad, a pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolch i bawb am bob cyfraniad ac am eu gwaith o wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 5ed o Ragfyr fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd, Sue Hughes. Aed trwy y busnes arferol o drafod yr ohebiaeth oedd wedi dod yn ystod y mis. Cyhoeddwyd am wahanol bethau oedd i ddigwydd yn lleol cyn y Nadolig a gwahodd pawb i ymuno yn y cyngherddau ac yn y blaen oedd i ddod. Diolchodd y llywydd i'r merched oedd wedi bod yn addurno coeden Nadolig Merched y Wawr oedd i fod yn rhan o Ŵyl y Coed Nadolig yn Eglwys Sant Ioan.

Yna aeth y llywydd ymlaen i groesawu ein gŵr gwadd sef Bob Penwern. Roedd Bob wedi dod â'i delyn mandelin i ddangos i ni sut oedd yn gallu torri pob math o lysiau, ffrwythau ac yn y blaen. Wrth ei ddefnyddio yr oedd yn gwneud i ni feddwl ei fod yn declyn hawdd i'w ddefnyddio, wrth gwrs roedd ef yn ei ddefnyddio mor gyson, ac yn gyfarwydd â'r declyn. I ddangos i ni un peth y gallai wneud fe wnaeth “Banana Flambe” ac fe gawsom i gyd flasu hwn ac yr oedd yn flasus dros ben. Fel rhan o'r noson Nadoligaidd hon fe ddarllenodd Bob ddarnau o farddoniaeth o waith Cynan ac i ddiweddaru'r noson cafwyd cwis, a ni yn gwrando ar bobl yn canu a dyfalu pwy oeddynt. Diolchodd Wendy Reynolds i Bob ar ran y gangen.

### Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tîm 1af Penrhyn-coch** - Rhagfyr 14eg
Penrhyn-coch 2 Llanidloes 2
Rhagfyr 21ain 2013
Conwy 3 Penrhyn-coch 0
Rhagfyr 28 - Gohiriwyd y gêm.
Ionawr 4ydd Cwpan Canolbarth Cymru - Bow Street 1 – Penrhyn-coch 4

**Eilyddion** - Rhagfyr 14eg
Padarn Unedig 3 Penrhyn-coch 4 (Cynghrair)

**3ydd tîm** - Ionawr 4ydd
Penrhyn-coch 0 – Tal-y-bont 9

### Gŵyl Coeden Nadolig

Dymuna is-bwyllgor codi arian eglwys St Ioan Penrhyn-coch, ddiolch i bawb a gytunodd i gymryd rhan yn yr ŵyl. Crewyd prosiect cymunedol llwyddiannus, a braf oedd gweld sut gynnwrf o bobl yn brysur yn addurno'r coed yn yr eglwys. Braf oedd gweld ymwelwyr yn mynychu'r arddangosfa, i edmygu'r eglwys yn ei holl ysblander Nadoligaidd.
'Roedd yna syniadau creadigol eang. Rhai wedi dewis dehongli carol ac eraill yn adlewyrchu eu sefydliad a'i busnes. Addurnwyr y Coed oedd: Bore Coffi Cymunedol, Clwb Sul Eglwys St Ioan, Pwyllgor Neuadd y Penrhyn, Cyngor Cymuned Trefeurig, Brownies, Clwb Arlunio Penrhyn-coch, Ysgol Gynradd Penrhyn-coch, P.A.T.R.A.S.A., Clwb 60+ Trefeurig, Capel Horeb, Urdd y Gwragedd, Gogerddan Childcare Ltd., R.A.O.B.Gogerddan Lodge, Sefydliad y Merched Penrhyn-coch, Cylch Meithrin Trefeurig, Merched y Wawr a Gorsaf Petrol Tymawr, Penrhyn-coch.

### Cau ffordd

Cyhoeddodd y Cyngor Sir iddynt ohirio cau y Ffordd rhwng Fferm Pen-cwm a gwaelod y rhiw i Benrhyn-coch (oedd i fod i ddigwydd ar Ionawr 13) am chwe wythnos tan yr ail wythnos ym Mehefin. Bydd gwneud y gwaith yn ystod yr haf yn golygu y bydd modd gwneud mwy o waith yng ngolau dydd.

**Clwb Hanner Tymor Horeb Penrhyn-coch**

Cynhelir Clwb Hanner Tymor Horeb Penrhyn-coch ar foreau Llun a Mawrth, 24 a 25 Chwefror o 10.00-12.30yp. Croeso cynnes i blant ysgol gynradd 5 mlwydd oed i fyny.

Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Judith ar 01970 820939 neu berwynfa@btinternet.com

**Cylch Ti a Fi**

Os oes gennych ddiddordeb mewn ail-gychwyn y Cylch Ti a Fi ym Mhenrhyn-coch, cysylltwch â Zoe ar 01970 611516 neu 07584411524 neu zoejones34@gmail.com



Gadawodd storm ganol Rhagfyr – Rhagfyr 18fed - ei ôl ar do Capel Horeb









Gwasanaeth Nadolig Horeb



Carys a Carwyn Jones, Y Ddôl Fach, yn canu calennig yng Nger-y-llan.

# Taith gerdded y mis

## Hafodau – Bwa Drain

**Man dechrau**: Ochr y ffordd cyn mynediad Tŷ Cam.
**Map**: OS Explorer 213. GR: 682792.
**Pellter**: 5.5 milltir. Hawdd ar wahân i ychydig o dynnu lan rhwng Neuadd Parc a Hafodau Cottage.




Ewch heibio Tŷ Cam a Neuadd Parc a dilyn y feidr am lan drwy iet a dilyn y ffordd nes cyrraedd Hafodau Cottage. Trowch i'r chwith a heibio Fferm Hafodau a dod i gornel y ffordd sydd yn dod lan o Goginan. I'r dde drwy'r iet a dilyn yr hen ffordd nes cyrraedd Pen Rhiwlas. O'ch blaen mae iet yn eich harwain lawr i gwrdd â'r ffordd o Bwa Drain i Ystumtuen. Ar ôl dod drwy'r iet i'r ffordd gwelir sticil ar y dde, drosti ac ymlaen ar hyd y llwybr a throi i'r dde pan welwch iet. Lan y cae ac fe welwch lwybr uwchben y goedwig. Dilyn hwn ac aros am beth amser i werthfawrogi 'r olygfa o Gwmrheidol. Ymlaen i Hafodau Cottage ac yn ôl i'r man dechrau. Mae'n bosib troi i'r chwith dros sticil yn syth ar ôl Hafodau Cottage a cherdded lawr i'r ffordd ger y ganolfan ac yn ôl ar hyd y ffordd.

ytincer@googlemail.com

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# Newyddion o Benweddig









### Gwasanaeth Gwobrwyo

Daeth disgyblion presennol yr ysgol a chyn-ddisgyblion ynghyd yn ystod wythnos olaf y tymor i dderbyn tystysgrifau arholiadau yng Ngwasaneth Gwobrwyo blynyddol yr ysgol. Cafwyd eitemau cerddorol i ddechrau ac anerchwyd y gynulleidfa gan Mr John Davies.

Ceir mwy o luniau ar wefan yr ysgol.

### Gwasanaeth Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig blynyddol yr ysgol ar ddiwrnod olaf y tymor, yng Nghapel Seion. Braf oedd gweld y capel yn orlawn a chafwyd darlleniadau, carolau ac eitemau unigol a chan gorau'r ysgol. Cafwyd anerchiad gan Y Parchedig Dr. Rhys Llwyd a'r Fendith gan Y Parchedig Andrew Lenny.

### Dathlu Penweddig yn 40 yn y Cynulliad

Trefnwyd taith i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar, ar gyfer aelodau'r Cyngor Ysgol. Cawsant eu tywys o amgylch yr adeilad a chael chyflwyniad ar weithgareddau'r siambr gan Elin Jones AC. Cyflwynwyd carden pen blwydd i Ms Jones gan y Cyngor, fel rhan o ddathliadau'r ysgol yn 40 oed eleni. Yn y llun gwelir aelodau'r Cyngor Ysgol gyda (chwith i dde) John Davies, a fu'n ddisgybl ar ddiwrnod cyntaf Penweddig yn 1973; Gwenallt Llwyd Ifan, Pennaeth; Rhodri James, Prif Fachgen; Kelsey Thompson, Prif Ferch; ac Elin Jones Aelod Cynulliad dros Geredigion. Gellir dod o hyd i'r llun o ddisgyblion presennol yr ysgol ar ffurf '40', ynghyd ag eitemau cofiadwy eraill ar dudalen Facebook y dathliadau facebook.com/penweddig40

### Cit Newydd Carfan Rygbi XV 1af

Carfan rygbi XV 1af Ysgol Penweddig yn derbyn eu cit newydd. Hoffai'r holl fechgyn a'u hathrawon ddiolch yn fawr i'r noddwyr, perchennog y bwyty teulu Baravin, Mr Glyn Heulyn, a pherchennog Bysiau Brodyr James, Mr Elwyn James. Mae'r XV 1af wedi mwynhau tymor da iawn, gan ennill saith o'r wyth gêm a chwaraewyd hyd yn hyn. "Yr hyn sy'n arbennig o braf" meddai Clem Thomas, Pennaeth Addysg Gorfforol, "yw'r ffordd y mae'r holl chwaraewyr yn barod i chwarae rygbi cyflym a chyffrous".

Yn y llun gyda'r XV 1af mae (chwith i'r dde) Mr Gwenallt Llwyd Ifan, Pennaeth; Mr Glyn Heulyn o Baravin; Mr Elwyn James o Fysiau Brodyr James, Mr Clem Thomas, Pennaeth Addysg Gorfforol.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
2.00
**Ionawr**
19 Bugail
26 Terry Edwards

**Chwefror**
2 I'w drefnu
9 10.00 Oedfa gomisiynu Zoe Glynne Jones yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
16 Bugail
23 I'w drefnu

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Valerie ac Antonia, merched y ddiweddar Mrs Toni Jones, Clydfan, Capel Dewi, a fu farw ar y 6ed o Ragfyr yng Nghartref Bodlondeb, Penparcau;
ac â Andrew ac Angharad Rowlands, Talar Deg, ar golli tad-cu Andrew – Mr Sidney Watkins o Raeadr.

### Pen blwydd arbennig

Dymunwn ben blwydd hapus iawn i Tegwyn Lewis, Rhos-goch, fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar 28 Ionawr.

# DÔL-Y-BONT

### Pen blwydd arbennig

Dymunwn ben blwydd hapus iawn i Mr. John Hughes, Brynddderwen ar ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar 28 Ionawr. Pob dymuniad da ar eich pen blwydd ac i'r dyfodol.

### Cyfarchion

Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref!




# Llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



Cysgodfan Aberystwyth ar ôl y storm – mae Cadw wedi gofyn i'r Cyngor Sir i atgyweirio'r gysgodfa - sy'n adeilad rhestredig. Cafodd gwefan www.atgof.co dros 422,000 o ymwelwyr i'r lluniau diweddar o'r stormydd / difrod.

# GOGINAN

### Parseli Nadolig

Mae henoed yr ardal unwaith eto yn ddiolchgar i Iris Richards, Brodawel, a Mair Jones, Coedlan, am drefnu y tocynnau Nadolig ac i Gareth Jones, Coedlan, a Carol Jones, Is y Coed, am wneud yn sicr ei bod yn cyrraedd yn saff.

### Calennig

Roedd rhai o frodorion yr ardal yn falch iawn o weld Alaw a Llŷr, Pwllcwenawon, a Hedd a Gwenno, Hafodau, yn canu Calennig eleni. Braf yw gweld y traddodiad yn cael ei gadw.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Louise Zlotnicki, Gwynfryn, ar farwolaeth ei gŵr David Herschel ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.
Trist hefyd i gofnodi marwolaeth Mary Evans ym Mhenarth, gweddw y diweddar Danny Evans, Teras Brynmelindwr gynt.
Cydymdeimlwn gyda'r teuluoedd oll.

### Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Gerallt Humphreys ac Amber Norman, Blaendyffryn, ar ei dyweddiad ar ddydd Nadolig. Pob lwc i'r dyfodol.

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

ytincer@googlemail.com

# O’r Cynulliad – Elin Jones



Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn newydd, bydd cyflwr ein gwasanaeth iechyd yn sicr yn bwnc fydd yn hawlio penawdau yn 2014. Mae pryderon yn tyfu am benderfyniadau Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Heb os, diffyg arian sydd wrth wraidd llawer o’r problemau, ond mae’r modd y mae’r gwasanaeth yn ein ardal yn cael ei reoli hefyd yn destun gofid.

Yn Rhagfyr, wrth gwrs, daeth y newyddion gwarthus fod gwelyau yn Ysbyty Aberteifi yn cau. Daeth hyn yn dilyn misoedd o gwtogi ar y gwasanaeth bob yn dipyn a thorri nôl ar staff, a oedd yn ddigalon i bawb. Mae angen clir am ysbyty cymunedol yn Aberteifi, sy’n gwasanaethu godre Ceredigion, ardal y Preseli a dyffryn Teifi. Gobeithio gallwn glymu’r Bwrdd Iechyd i amserlen pendant ar gyfer yr ysbyty newydd. Hefyd mae pryderon parhaus am wasanaethau ym Mron-glais. Eto, rhaid i’r Bwrdd Iechyd adfer ffydd y cyhoedd; maent wedi torri gormod o addewidion am wasanaethau yn ein hardal.

Rhaid, wrth gwrs, ymladd dros y gwasanaethau yma. Ond hefyd rhaid edrych i’r tymor hir, a daeth llygedyn o newyddion da yr wythnos cyn y Nadolig. Fis Tachwedd, arweiniais grŵp o feddygon uchel eu parch o ar draws y canolbarth i gwrdd â’r Gweinidog Iechyd. Nawr, daeth cadarnhad fod y Gweinidog wedi gwrando, a’i fod am gomisiynu ymchwil annibynnol fydd yn edrych yn benodol ar sialensau i’r Gwasanaeth Iechyd yn yr ardal wledig eang sy’n gorwedd rhwng coridorau’r M4 a’r A55.

Dyma gydnabyddiaeth fod anghenion yr ardal hon, gan gynnwys Bron-glais, ysbytai cymunedol, meddygon teulu a gwasanaethau cymdeithasol, yn unigryw. Mae angen meddwl yn flaengar am y sialensau, gan ddefnyddio tele-feddygaeth a thechnoleg fodern i sicrhau fod gan bobl wasanaethau yn agos i’w cartrefi.

Pwnc arall fydd yn parhau i gael sylw yn 2014 fydd pris ynni. Mae pleidiau San Steffan wedi cyhoeddi polisïau fydd yn lliniaru rhywfaint ar y cynnydd diweddar yng nghost trydan a gwresogi’n cartrefi. Ond o weld y manylion, tydyn nhw ddim fel petaent yn ystyried fod y rhan fwya o gartrefi mewn ardal fel Ceredigion ddim yn gallu derbyn nwy trwy bibell. Mae peryg na fyddwn ni’n gallu elwa o’r cynlluniau i reoli prisiau, gan mai’r fargen rhataf gan y rhan fwyaf o gwmnïau yw’r contractau ‘deuol’ nwy a thrydan. Rwy’n benderfynol o sicrhau fod anghenion ein bröydd ni yn cael eu clywed.

# Colofn Enwau Lleol – Ruel (neu Riwel)

Diolch yn fawr i Huw Ceiriog Jones am ei ddehongliad o’r enw *Ruel* neu *Riwel* yn rhifyn Rhagfyr y Tincer. Y tro hwn, hoffwn edrych ar esboniad arall posibl ar yr enw.

Mae’r ffurfiau cynharaf, *Rywael* (13g.) a *Ryvuael* (14g.), yn awgrymu mai’r elfen *rhiw* ‘llethr, allt’ a ffurf dreigledig yr enw personol *Mael*, sy’n golygu ‘tywysog, arglwydd’ ac sy’n elfen gyntaf yn yr enw *Maelgwn,* sydd yma.

Ar fap modfedd yr Arolwg Ordnans (1837), gyferbyn â ffermydd y *Ruel* a’r tu draw i Nant Clarach (yng nghyffiniau Pen-y-garn a Maesceiro heddiw) cofnodir yr enw *Cae Malgwyn* (amrywiad ar yr enw personol *Maelgwn*). Yn ôl traddodiad, arferai carnedd o’r enw *Carn Faelgwn* sefyll ar y cae hwnnw yn ogystal.

Awgrymodd yr Athro R. Geraint Gruffydd mewn erthygl yn *Nhrafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1996, cyfrol ii. t. 14-15) bod y tri lle hyn yn gysylltiedig â Maelgwn Gwynedd, am fod Buchedd Padarn yn adrodd iddo wrthdaro â Sant Padarn yng nghyffiniau Clarach.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

(Ymddiheuriadau – dylai enw Huw Ceiriog Jones fod wedi ymddangos o dan yr erthygl y mis diwethaf _ ef oedd awdur yr erthygl a’r englyn **Gol.**)



Sylwer bod Ruel Uchaf (ar y dde) wedi ei lleoli yn is i lawr y llethr na Ruel Isaf (ar y chwith). Y rheswm am hyn yw bod yr elfennau isaf ac uchaf yn cyfeirio at bellter cymharol i fyny’r dyffryn, yn hytrach na lleoliad cymharol uwchlaw lefel y môr.
Llun: Iestyn Hughes, Atgof




Map yr Arolwg Ordnans (1837) Great Britain Historical GIS Project, University of Portsmouth

# Y BORTH






### Cyfleuster newydd

Gyda'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi pasio, dyma'r amser i wneud penderfyniadau ac addunedau newydd ar gyfer y flwyddyn newydd. Yn aml iawn ar frig y rhestr y mae cadw'n heini ac ymarfer corff. I'r pwrpas yma, mae'r tîm o hyfforddwyr ffitrwydd campfa newydd sbon Parc Brynrodyn yn ysu i'ch helpu gyda'u geiriau ysbrydoledig a'u rhesymau diri am fanteision sefydlu amserlen ffitrwydd:

Mae Parc Brynrodyn, Borth, wrthi'n lansio eu cyfleusterau ffitrwydd newydd y mis hwn, ac mae croeso cynnes i aelodau o'r cyhoedd i'w defnyddio. Ac os ydych yn ymuno ym mis Ionawr, fe gewch un mis o ffitrwydd am £10. Mae'r £10 yn cynnwys defnydd y swît ffitrwydd llawn offer, cyflwyniad i'r gampfa a rhaglen ffitrwydd bersonol.

"Mae'n gynnig arbennig, ac yn rhoi cyfle i bobl leol roi cynnig ar y cyfleusterau newydd ac i siarad â'r arbenigwyr am eu hanghenion ffitrwydd. Nid oes yn rhaid i chi fod yn ffit i ddechrau ymarfer corff! Gallwn deilwra rhaglen sy'n addas i chi, boed hynny'n wythnosol neu'n ddyddiol."

Mae cynnig Ionawr ar gael tan 31.01.14. Mae aelodaeth ar ôl hynny yn £20 y mis a ffi ymuno o £5. Mae Parc Brynrodyn yn cynnig gostyngiad o 15% ar gyfer aelodaeth ar ôl mis Ionawr i holl weithwyr gwasanaethau lleol (h.y. nyrsys, dynion tân, yr heddlu, athrawon, gweithwyr y cyngor ac ati gyda phrawf o gyflogaeth). Nid oes contract - gall aelodaeth gael ei ganslo ar unrhyw adeg gydag un mis o rybudd.

Eisoes wrthi'n defnyddio campfa newydd Brynrodyn y mae aelodau tîm Heddlu Dyfed Powys, sy'n defnyddio'r cyfleusterau i ymarfer ar gyfer ymgyrch elusennol Run to Remember i godi arian i Gronfa Goffa PC Nicola Hughes. Cafodd PC Nicola Hughes a'i chydweithiwr Fiona Bone eu saethu'n farw ym Manceinion ym mis Medi 2012 yn dilyn galwad am fwrgleriaeth.

Bydd y tîm yn rhedeg 2 filltir y diwrnod am 125 diwrnod rhwng Rhagfyr a mis Ebrill er mwyn gwneud i fyny 250 milltir - am fwy o wybodaeth ar sut i noddi'r tim a'r gronfa ei hun, ewch i www.justgiving.com/Melanie-Gaul a www.pchughesnorthpolerun.co uk. Mae Brynrodyn yn dymuno'n dda iddynt ac yn falch o allu helpu gyda'u hyfforddiant fel campfa leol.

### Cymdeithas Gymraeg y Borth

Penderfynodd y Llywydd, y Parchg Cecilia Charles, mai'r peth gorau oedd gohirio cyfarfod nos Fercher 8fed Ionawr oherwydd y tywydd gwael. Byddwn yn cyfarfod ym mis Chwefror.

Ar Ragfyr 8fed cynhaliwyd gwasanaeth carolau coeden Nadolig yn Eglwys y Borth. Roedd mor braf cael coed gan wahanol grwpiau lleol – Undeb y Mamau, Ysgol Craig yr Wylfa, Yr Ysgol Feithrin, Canolfan Deuluol y Borth, Clwb Garddio'r Borth, Y Lleng Brydeinig, Cymdeithas Henoed y Borth, Sefydliad y Merched y Borth, y cylch darllen lleol, Ysgol Sul St Matthew a Chyngor Cymdeithas y Borth. Cafwyd hefyd un gan Rita – ffrind yr eglwys. Dewisodd pob grwp garol i'w chanu a chanwyd rhai ohonynt yng ngolau cannwyll. Roedd yn wasanaeth hyfryd a ddilynwyd gan fins peis.

Ar Ragfyr 15fed cyflwynodd plant a phobl ifanc y Borth ddrama'r geni mewn geiriau, cerddoriaeth a symudiadau i fwynhad eu teuluoedd, cyfeillion a phentrefwyr. Llongyfarchiadau iddynt i gyd am eu gwaith called. Diolch hefyd i Leasa, Amanda, Jood a Hattie am eu cymorth. Daeth pawb ynghyd ar y diwedd am luniaeth. Yr hyn a wnaeth y gwasanaeth yn un mor arbennig oedd band yr Ysgol Sul a hyfforddwyd ac a arweiniwyd gan Jacky Hassan, ac rydym yn werthfawogol iawn o'i chymorth. Roedd Megan, Hannah, Toohey, Anna a Charlotte ar ffliwtiau, Andrew ar y corn trebl, Dion ar y clarinet a Josh a Lili ar y cornets. Roedd Sam – sydd hefyd yn chwarae cornet – yn sal yn anffodus. Roedd y plant yn wych a chafodd y band gymeradwyaeth eu hunain. Diolchwn iddynt am ymarfer cystal a diolchwn i Jacky am ei hamser a'i hamynedd.

Nos Sul Rhagfyr 22ain cynhaliwyd cyngerdd carolau yn Eglwys St Matthew gyda darlleniadau a charolau. Roeddym yn hynod ffodus o gael Côr y Gors o'r Borth, wedi eu hyfforddi gan Nick, i helpu efo'r canu ac i ganu rhai caneuon Nadolig i ni. Rhannodd y cor a'r gynulleidfa win twym a mins peis ar y diwedd.

Cynhaliwyd gwasanaethau Nadolig ychwanegol noswyl Nadolig a bore dydd Nadolig pan barhawyd i ddathlu geni Iesu Grist.

Bydd gwasanaethau yr eglwys yn parhau yn 2014 am 11.15 y bore yn y Borth gydag ysgol Sul yr un amser. Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau a phlant i'r ysgol Sul.

### Llanw Ionawr

Ar ôl 4 diwrnod o stormydd, a'r Borth wedi goroesi'n weddol dda. Y grêd gyffredinol yw bod y Morglawdd newydd wedi gwneud ei waith, er yn ddelfrydol dylid ail osod y cerrig cyn llifogydd mawr Chwefror a Mawrth er mwyn iddo ein achub eto.

Fel arfer, mewn sefyllfa fel hyn, mae ysbryd cymunedol y Borth yn amlwg, gyda phawb yn dod at ei gilydd i helpu ar frys. Sgubo dŵr o drothwy drysau cymdogion sydd yn cael eu bygwth gan y llif yw'r peth cynta sy'n digwydd ac yna adeiladwyr cymwynasgar yn trwsio dros dro nes daw tywydd gwell.

Bu Stryd Fawr y Borth ar



Llanast bore Sadwrn Llun: Catrin Webster

gau er mwyn i gerbydau'r gwasanaethau brys, gwylwyr y glannau a cherbydau'r cyngor gael rhwydd hynt i helpu yn ystod yr argyfwng.

### Marwolaeth

Yn ystod mis Rhagfyr bu farw Mrs Eirwen Wall yn 95 oed. Roedd yn enedigol o'r Borth a'r olaf o deulu'r Brodigans, Hillside. Treuliodd dros ddeugain mlynedd yn Rhodesia a phan ddychwelodd treuliodd y blynyddoedd diwethaf yn agos i'w theulu yn Stevenage, Swydd Hertford.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Seren Smith (merch Delyth Pryce Jones) a Ben Dimmock ar eu dyweddiad. ar ddydd Calan.

Llun: Rhisiart Hincks



Maes Parcio Tro Ynys-las



Atgynhyrchwyd trwy ganiatâd y Gymdeithas Ddaearegol Brydeinig – British Geological Society BGS P252866 (storm y Borth 28 Hydref 1927)



## Clwb Henoed y Borth

Cawsom amser prysur yn y cyfnod yn arwain i fyny i'r Nadolig. Ar Ragfyr 5ed cawsom ein te parti Nadolig a chwis. Cawsom gyfarfod gwych er gwaethaf y tywydd erchyll – da iawn i bawb lwyddodd i gyrraedd. Roeddym yn siomedig nad oedd un o'n haelodau cartref, Kathleen Jones, yn ddigon da i ddod allan yn y tywydd ofnadwy i gyfeilio i ni.

Ar Ragfyr 12fed death tyrfa dda ynghyd i'n cinio Nadolig yn Llety Parc, Aberystwyth. Roedd yn braf gweld cynifer o aelodau yn ddigon da i fod gyda ni. Fel arfer cawsom bryd ardderchog gyda'r holl drimings y gallech feddwl am. Gair arbennig i Irene, o Llety Parc, am ein sbwylio yn ôl yr arfer. Roedd caredigrwydd yr holl staff fel eisin ar y gacen i ni! I orffen yr achlysur daeth band o Ysgol Penweddig, wedi ei arwain gan Alan Phillips , i'n difyrru gyda ein hoff garolau Nadolig. Rydym mor ddiolchgar i staff a disgyblion am ddod atom mor ffyddlon yn flynyddol ar amser mor brysur iddynt. Roedd yn drueni nad oedd rhai o'n haelodau yn ddigon da i ddod ar y diwrnod - Kathleen Jones, Dorothy Horwood a Chris Richards. Dymunwn yn dda iddynt yn 2014 gan obeithio y byddent nôl gyda ni yn fuan.

Ar Ragfyr 13eg fe'n gwahodwyd i Neuadd Gymunedol y Borth i rihyrsal wisg sioe Nadolig Ysgol Craig yr Wylfa. Cawsom brynhawn gwych yn cael ei ddilyn gan ymborth gyda'r staff a plant.

Oherwydd y problemau yn y Borth ar ôl stormydd y dyddiau diwethaf gohiriwyd ein cyfarfod ar Ionawr 9fed; cynhelir ein te parti a Chyfarfod Blynyddol ar Ionawr 23ain. Cyn hynny ar Ionawr 11eg byddwn yn mynd i weld 'Dick Whittington and the Pi-Rats' yng Nghanolfan y Celfyddydau. Daeth yr ymweliad blynyddol hwn yn droddodiad i'r Clwb Henoed ac edrychwn ymlaen yn flynyddol am y mwynhad. Mae croeso i unrhyw un sydd am ymuno â'r Clwb i ddod draw bob yn ail dydd Iau i'r Neuadd Gymunedol am 2.00. Cewch groeso cynnes. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Betty ar 871135 neu Joy ar 871649.


**ytincer@googlemail.com**

# Dewch i'r Borth

Ar ôl cael noson dda yng nghwmni Ieuan Ellis yng Nghymdeithas Gymraeg y Borth ganol Rhagfyr pan ddangosodd nifer fawr o hen luniau'r pentref inni, tybiais y byddai sôn am hen lyfryn (di-ddyddiad) *Borth* : *The Official Guide,* o ddiddordeb i rai ohonoch. Argraffwyd y llyfryn gan Gwmni Edward Burrow, Cheltenham, ar ran Cymdeithas Trethdalwyr y Borth ac enwir R.R.Davies, Trigfan, fel ysgrifennydd a thrysorydd. Byddwn yn cyfarfod yn neuadd hyfryd y pentref lle'r oedd Ysgol Uppingham gynt. Ym 1876 oherwydd i haint beryglu disgyblion ac athrawon yr ysgol yn Uppingham symudodd y pennaeth, Dr Edward Thring, hi i'r Borth, ac am gyfnod gelwid y pentref yn 'Uppingham by the Sea'.

Byddai'r plant a'r athrawon yn lletya mewn tai cyfagos a gwerthfawrogwyd y croeso yn fawr. Wedi i'r ysgol ddychwelyd i Loegr byddai'r athrawon a'r plant, a'u teuluoedd maes o law, yn dod ar wyliau am ddegawdau. Yn un o'r pedair 'testimonial' yn y llyfryn mae'r Dr Thring wrth gydnabod cymorth pobl y pentref yn canmol yr hin - yn ffres yr haf a mwyn y gaeaf. Un arall oedd yn canmol oedd y Dr Macharness, Esgob Rhydychen ym 1881 – 'I gladly bear witness to the benefit an invalid may gain from the pure, fresh air of Borth'. Yr un yw barn Bernard Coleridge a Syr James Murray y geiriadurwr enwog.

Cynhwyswyd nifer o luniau yn y llyfryn, y cyntaf yn dangos y 'Grand Hotel '/ Pantyfedwen, yn ei holl ogoniant, un arall o'r 'Friendship Hotel' cartre'r brodyr Pugh y pêldrodwyr enwog, ac un o'r 'Diana Private Hotel'. Enwir hefyd y 'Grosvenor', 'Cliff Haven', 'The Knoll', a 'Highfield' fel llety ymwelwyr a cheir rhestr dwy dudalen o dai a fflatiau ar osod yn ogystal.




Dyna'r cyfnod fel mewn pentrefi glan môr ar hyd yr arfordir lle byddai'r teulu yn symud i sied yn yr ardd i'r fisitors gael bod yn y tai. Mae lluniau eraill yn dangos 'Borth From The Rocks', 'Borth "Woods"', 'The Lion Rock' a gŵr yn dringo arni, Afon Leri a Dôl-y-bont.

Roedd yna amrywiaeth o siopau i ddiwallu pob angen - Cwmni Trydan Borth ac Ynys-las, siopau'r cigyddion Trevor Humhreys, E.R. Evans, a John Mathews, Siop Esgidiau Pritchard a'i Fab, Gwendon; Siop E.M.Bowen y Fferyllydd, a Siop menyn, hufen ac wyau Evan Lewis. Ac ambell hysbyseb o'r tu allan i'r Borth – Ffatri Wlân Leri, Tal-y-bont; a'r adeiladwyr R& H.L.Owen, Aberystwyth, lle bu nhad yn gweithio am flynyddoedd

Ceir saith o fapiau bychain i arwain pobol ar deithiau cerdded awr a hanner i ddwyawr i ganfod gogoniant yr ardal – un mor bell â Llandre. Uwchben y pennawd 'Panoramic View From Borth', ceir manylion diddorol mewn tri map. Un yn lleoli Tre'r-ddôl, Taliesin, Bedd Taliesin, a chopaon Moel y Garn, Moel y Llyn a Coron Wen, gyda chopaon Meirion a Maldwyn yn y pellter. Mae'r ail fap yn cyfeirio at 'Prawning Ground, Lobster Haunts', Craig yr Wylfa, Craig y Delyn, Carreg y Fwlfran, Wallog, a Sarn Cynfelyn yn ymestyn 8 milltir i'r môr, Aberystwyth, Aberteifi a Phen Strwmbwl, Sir Benfro. Yn y trydydd nodir Ynys Enlli, Garn Fadryn, Pwllheli, Yr Eifl, Cricieth, Porthmadog Harlech, Bermo, Tywyn, Aber-dyfi, a'r Wyddfa.

Gan fod llun y pedwar cwrt tenis yn y llyfryn byddwn wedi disgwyl gweld un o adeilad y Clwb Golff gan ei fod yn denu llu o chwaraewyr am fod y maes 18 twll mor adnabyddus. Roedd John fy nghefnder a minnau yn beicio o Dre'r-ddôl a Thaliesin, ddiwedd y 1940au i weithio fel dau gadi i gario bagiau trwm y chwaraewyr am 3 swllt a 6 cheiniog. Bûm yn ffodus o gael fy nghyflogi gan Bil Griffiths, gŵr bonheddig o Gristion a milfeddyg yng nghyffiniau Birmingham, a gododd fy nghyflog i goron o flaen pawb arall. Gan ei fod yn addolwr selog yn Eglwys Sant Mathew roeddwn yn rhydd i fynychu Ysgol Sul Rehoboth.

O sôn am Ysgol Sul nodir mannau addoli'r pentref, Eglwys Sant Mathew, a'r tri gwasanaeth yn Saesneg; y ddau gapel Presbyteraidd, Soar a Libanus; Siloh y Wesleaid a Chapel yr Annibynwyr – tri olaf yn cynnal oedfaon Saesneg yn Awst yn y bore. Rwy'n cofio Dan, Erwau Glas, yn dweud iddo weld un o flaenoriaid Libanus, Isaac Pritchard, yn rhoi B.A; B.D. ar ôl enw pregethwr oedfa Saesneg a hwnnw yn ŵr heb radd. Ymateb Isaac i gywiriad Dan oedd, 'Paid sôn wrth neb oherwydd mae'r Saeson 'ma yn rhoi mwy yn y casgliad pan welan nhw'r graddau!'

**W.J.Edwards**

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllennwyr *y Tincer.*

### Cofion

Danfonwn ein cofion cynhesaf at Mair Stanleigh Dolfawr, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Pennal View ym Mlaenpennal.

### Urdd y Benywod

Bu cyfnod y Nadolig yn adeg prysur iawn eleni eto. Er taw dim ond chwech aeth allan i ganu carolau, llwyddwyd i gasglu £270.00 a fydd yn cael ei drosglwyddo i goffrau Cylch Meithrin Pen-llwyn. Diolch i John ac Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Carol Marshall, Mike a Claire Maloney a Beti Daniel am ymdrechu i gadw y traddodiad o fynd o amgylch yr ardal yn fyw. Gobeithio y bydd rhagor yn fodlon ymuno â ni y flwyddyn nesaf. Cafwyd dipyn o groeso a diolch i bawb am eu haelioni.

### Parti Nadolig

Nos Sadwrn cyn y Nadolig daeth nifer dda i Ganolfan Groeso Statkraft ar gyfer y parti Nadolig. 'Roedd yn braf i weld cymaint o blant yn bresennol ac wrth gwrs daeth yr hen Santa heibio gydag anrheg i bob un. Diolch yn arbennig i dad Alice Briggs Y Capel, Aber-ffrwd am ei gefnogaeth eleni eto. Gorffennwyd y noson drwy dynnu y raffl a chanu carolau, diweddglo hyfryd i noson gymdeithasol iawn.



### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Ann Ellis, Hywelfan, a'r teulu ar farwolaeth ewythr - sef Emlyn Williams, Clarach

Annwyl Ddarllenwyr,
Fe fydd Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed ar fis Medi'r 25ain, 2014 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi llyfr i nodi'r garreg filltir bwysig hon.

I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu darllenwyr o'ch plith a fu yn yr ysgol i anfon eu hatgofion, eu storïau a'u lluniau atom.

Fe allwch anfon eich cyfraniadau trwy'r post i'r cyfeiriad uchod, neu drwy e-bost at y pennaeth Clive Williams i'r cyfeiriad – **swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk** neu at olygydd y llyfr **meleriwynjames@googlemail.com**
Fe hoffwn dderbyn y cyfraniadau erbyn mis Mawrth y 31ain, 2014.

Yn gywir,
**Clive Williams**
**Meleri Wyn James**
Ysgol Gymraeg Aberystwyth,
Rhodfa Plas-crug,
Aberystwyth, SY23 1HL

## Cymdeithas Brodwaith Cymru



Annwyl Ddarllenwyr,
Fe wyddoch, mae'n siŵr, fod y Gymdeithas hon yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg bob blwyddyn. Eleni yw'r wythfed tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon. Enillwyd hi yn y saith mlynedd ddiwethaf gan fyfyrwyr dawnus, a phleser oedd arddangos eu gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Rydym wedi canfod mai'r ffordd orau i'r Gymdeithas ddenu ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth o bob rhan o Gymru yw trwy gael cyhoeddusrwydd yn y papurau bro.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Nesta Jones, Craigytan, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TA craigytan@btinternet.com dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2014.

Gyda diolch.

Yn gywir
Nesta Jones

MYNACH HANDYMAN
Cynnal a Chadw Tŷ, Gardd, Siediau a Tŷ Gwydr, Golchi Patio
Rhoddir sylw i'r gwaith bach yna does byth amser gennych i orffen. Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816
mynachhandyman@yahoo.com

ytincer@googlemail.com


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

# Colofn Mrs Jones

Gobeithio i bawb ohonoch gael Nadolig Llawen a llewyrchus ac y cewch Flwyddyn newydd Dda hefyd.

Nid yw wedi bod yn gychwyn da i'r flwyddyn ac nid yw hi ond y trydydd o Ionawr arnaf yn ysgrifennu y geiriau hyn.Ond prin ddod dros un storm yr oeddem cyn i un arall, waeth, ddod i dir. A rhyfedd iawn i mi oedd peidio gweld rhybuddion llifogydd am Fachynlleth a Llanrwst. Storm fôr oedd hon,wrth gwrs, a 'r arfordiroedd gafodd hi waethaf gan greu rhai amgylchiadau gwir beryglus. Ond er fod y perygl yn un real iawn, mae'n syndod cymaint o bobl oedd am fynd ar hyd prom Aberystwyth i fusnesa a thynnu lluniau.Tybed a oeddynt yn sylweddoli na fyddai achubiaeth yn bosibl pe disgynnent i'r dŵr.

Mae grym natur yn un dychrynllyd, wrth gwrs, ac yn un na ellir na'i ateb na'i wrthod. Yr unig beth all rhywun ei wneud yw ymorol am ei bolisi yswiriant a gobeithio'r gorau. A gall ychydig o ddŵr ledu a chreu llyn mewn dim fel y gall unrhyw un sydd wedi gollwng mwg o ddŵr dystio.

Ond er bod calon rhywun yn gwaedu wrth feddwl am drafferthion y rhai sydd wedi eu heffeithio arnynt yr oedd rhan ohonof yn gwenu yn fewnol ac yn ystyried yr hen rigwm

Fuoch chi rioed yn morio?
Wel do mewn padell ffrio
Chwythodd y gwynt fi I'r Eil o Man
Ac yno y bum yn crio.

A mae'n ddrwg calon gennyf orfod eich hysbysu fod yr hen rigwm ym gwbl anghywir..... Yn sicr,fe all gwynt a gyfyd bafinioedd a'u lluchio fel lluchio confetti godi rhywbeth ond dim ond gwynt o fôr yr Iwerydd sydd yn mynd i ysgubo drosom o'r môr. Felly, nid yw yn bosibl i rywun o Gymru landio ar Ynys Manaw ar ôl i 'r gwynt eu herwgipio, onid i i gyfeiriad De Lloegr a phorthladdoedd Ffrainc y chwythid ef?

Fe wn i un peth arall am ystormydd. Pan nad oeddwn yn berchen tŷ, arferwn hoffi gorwedd yn fy ngwely yn gwrando arnynt. Rwan, diolch y byddaf nad wyf yn medru eu clywed yn eu llawn bwer unwaith y byddai wedi tynnu fy nheclynnau clywed! Y mae oed a phrofiad yn newid pob perspectif.

Cofiwch am noson cwis eglwys Sant Ioan ddiwedd Ionawr, y mae croeso i bawb ffurfio tîm i gystadlu.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

Suliau Pen-llwyn
2.00
Ionawr

19 Gordon MacDonald 10.00
26 Elwyn Pryse 10.00

Chwefror
2 Bugail 5.00
9 Oedfa gomisiynu Zoe Glynne Jones yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth 10.00
16 Ifan Mason Davies 10.00
23 Bugail 5.00

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwendoline Jones, Rhoslwyn gynt, ar golli Rick yn ddiweddar. 'Roeddent yn byw bellach yn y Drenewydd ers blynyddoedd lawer. Cofiwn am Gwendoline yn ei hiraeth.

### Ynysoedd Pilipinas

Penodwyd dydd Sul y 29ain o Ragfyr i roddi y casgliad y Sul hwnnw tuag at Ynysoedd Pilipinas. Mae y gronfa yn dal ar agor i weddill yr aelodau, neu yn wir unrhyw un arall sy'n dymuno rhoi. Mae'r cyfle yna am beth amser eto.Yn bendant mae trychineb Pilipinas yn haeddu ein rhoddion, a ninnau yn byw yng nghanol ein digon. Heulwen Lewis, Deiniol, ac Ann Vaughan, Gwarddol, sydd yn derbyn rhoddion. Hyd yn hyn y mae'r casgliad yn £230. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

### Gwasanaeth y Plant

Cynhaliwyd gwasanaeth nadolig plant yr Ysgol Sul, fore yr 22ain o Ragfyr. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan yr athrawon. Yna cafwyd gan y plant gyflwyniad ar ystyr stori y geni, a phob un a'i ran wedi gwisgo, wrth gwrs, yn addas. Y gweinidog, y Parchg Wyn Morris a fu yn eu cyfarch wedi y perfformiad,



a'u llongyfarch ar eu gwaith. Gwelir yn y llun, yn y cefn: Llŷr, Ffion, Luned, Alaw, Nannon,a Megan,Yn y blaen: Efanna, Tomos, Ania, Owen, Elen, a Cortney.

### Priodas

Priodwyd Llinos Mai Griffiths â Andrew Edwards, Aberystwyth, ar yr 28ain o Ragfyr yn nghapel Cemais, Machynlleth. Efallai na wyddoch mai wyres Mrs Doreen Davies, Glasfryn, yw Llinos. Cynhaliwyd y wledd briodas yn Neuadd Maesmawr, a chafwyd amser da. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau deulu. (Gweler llun ar t.16)

### Calennig

A ydyw yr hen draddodiad o hel calennig yn marw allan? Nac ydyw, ddim ym Mhen-llwyn Capel Bangor, beth bynnag. Bu Alaw a Llŷr yn canu o ddrws i ddrws eleni eto. Hefyd Morgan, a Iestyn, am y tro cyntaf, yn nhŷ mam-gu ac Aunty Margaret. Go lew chi, daliwch ati.

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Plant Cylch Meithrin Pen-llwyn yn derbyn eu crysau T newydd gan eu noddwyr E Jones Plant Hire ac Alison Jones Uniforms. Cafwyd cyngerdd arbennig gan y plant cyn y Nadolig a daeth Sion Corn heibio i ddweud helo. Hoffem ddymuno pob lwc i Amelia, Emelia, Sean, Gwenan, Hedd a Peni yn eu hysgolion newydd a croeso mawr i'r plant newydd Ellie, Gwenno, Lily, David a Trystan.

Er bod y cylch yn boblogaidd mae yna rhai llefydd gwag ar gael. Os ydych eisiau mwy o wybodaeth cysylltwch â Iwan Meirion (iwanmeirion@gmail.com / 07866 411726).

Mrs Ann Davies un o'r aelodau cyntaf a Mrs Beti Daniel , Llywydd presennol yn torri 'r gacen yng nghinio dathlu 30 fed mlynedd y gangen yn y Conrah mis Tachwedd. Gwnaethpwyd y gacen gan gyn aelod - Mrs Helen Jones. Mae'r gangen yn cwrdd ar nos Fawrth cyntaf y mis yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 7-30.Croeso cynnes i aelodau newydd.



Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Sul Pen-llwyn.



Alaw a Llŷr yn canu calennig.



Morgan ac Iestyn yn canu calennig.

### Merched y Wawr – cangen Melindwr

Deng mlynedd ar hugain. Ie, dyna faint o amser sydd ers i gangen Melindwr o Ferched y Wawr gael ei ffurfio. Credem fel cangen y dylid dathlu'r achlysur ac aeth swyddogion y gangen ati i wneud trefniadau. O ganlyniad, un noson ar ddechrau mis Rhagfyr gwelwyd yr aelodau presennol yn anelu at Westy'r Conrah. O gyrraedd yno gwelwyd bod y lle wedi ei addurno'n chwaethus ar gyfer gŵyl y Nadolig a roedd hynny'n creu'r naws ar gyfer dathliad y gangen.

Croesawyd pawb i'r ginio gan Mrs Beti Daniel, y llywydd, ac wedi iddi ddweud gras, mwynhawyd pryd blasus. Darllenwyd cyfarchion a dderbyniodd y gangen ar yr achlysur. Buom yn ffodus i gael cwmni tair gwraig wadd ar y noson a chafwyd anerchiad pwrpasol gan y dair yn eu tro. O bryd i'w gilydd bydd Mrs Elizabeth Evans, Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro'n ymweld â'r gangen ac fe'i gwelwn mewn digwyddiadau rhanbarthol. Nid yw Mrs Tegwen Morris, y Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn ddieithr i ni chwaith. Mrs Gill Griffiths, y Llywydd Cenedlaethol, oedd y drydedd, a ddaeth atom bob cam o Gaerdydd. Do, fe gyfeiriwyd ati fel mam yr actor Ioan Gruffydd.

Diolchwyd i'r gangen am fod yn gefnogol i nifer o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd y Mudiad. Clywsom y diweddaraf am yr ymgyrch i gasglu bagiau ar gyfer Cymorth Cristnogol a diolchwyd i'r aelodau am eu bagiau, am helpu i'w didoli a'u gwerthu ac yn ogystal am fod yn barod i brynu bagiau. Diolchwyd hefyd i'r aelodau am fod yn weithgar ac yn berlau yn eu cymdeithas a chafwyd anogaeth i barhau i'r dyfodol.

Fel sy'n arferol pan fydd dathliad pen blwydd, roedd cacen wedi ei pharatoi ar gyfer yr achlysur. Mrs Eirwen McAnulty, yr is-lywydd a'i merch, Helen oedd yn gyfrifol am baratoi'r gacen honno ac fe'i torrwyd gan Mrs Beti Daniel a Mrs Anne Davies. Mrs Heulwen Lewis a ddiolchodd i bawb – i staff y gwesty, i Eirwen McAnulty a Helen, swyddogion y gangen, yr aelodau a'r gwragedd gwadd.

Cyfrannodd nifer o aelodau wobrau raffl ar gyfer y noson ac fe'u henillwyd gan yr aelodau a Mrs Elisabeth Evans. Mwynhawyd y cyfle i sgwrsio â'n cyd-aelodau ac â'r tair gwraig wadd cyn troi tua thref. Ond na, nid dyna ddiwedd y noson. Yn hwyrach y noson bu Geraint Lloyd ar ei raglen radio'n siarad â Tegwen Morris a chyfeiriodd hithau at y noson a dreuliodd yn ein cwmni. Fel aelodau, edrychwn ymlaen yn hyderus i'r dyfodol a chofiwch y byddem yn falch iawn i groesawu aelodau newydd.

## LLANDRE

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Owen Watkin, Maes Henllan, fu'n astudio fel myfyriwr allanol yn Llambed ac sydd wedi ennill gradd MA dosbarth cyntaf mewn Astudiaethau Islamaidd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

### Gwellhad Buan

Dymunwn yn dda i Ann Thomas, Glyncoed, sydd wed bod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

### Cracer o Flwyddyn

Bu 2013 yn flwyddyn weithgar i'r Banc Bro. Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd dathlu'r Fari Lwyd ym mis Ionawr, lawnsiwyd Lygad yn Llygad, cyfrol gyntaf Y Prifardd Huw Meirion Edwards, bu 16 o feirdd ifanc Cymru yn cystadlu yn y Talwrn yn y Parc ym mis Medi ac roedd y Cracer o Noson ar 29 Tachwedd yn noson hwyliog a chofiadwy iawn. Codwyd swm sylweddol o arian i Ambiwlans Awyr Cymru.

Un o lwyddiannau mawr y flwyddyn oedd y gefnogaeth a gafwyd i sefydlu'r Clwb 50 gyda 65 aelod yn ymaelodi yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd gwobrau ariannol yn fisol. Bu'r Clwb yn allweddol o safbwynt creu cronfa graidd o arian yn y gymuned.

Mae angen nawr i aelodau'r Clwb ail gofrestru ar gyfer 2014 drwy naill ai lenwi ffurflen banc neu dalu arian parod am y flwyddyn (£24.) i'r Trysorydd David England, Pantyglyn, Llandre cyn diwedd mis Ionawr.

Mae'n gyfle hefyd i aelodau newydd i ymuno â'r Clwb ac i fuddsoddi £2. y mis yn y gymuned. Telir gwobrau ariannol o £30/£20 a £10. yn fisol (ag eithrio mis Awst) gyda gwobrau bonws ym mis Rhagfyr. Defnyddir yr elw i drefnu gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol. Menter gwbwl leol yw hon sy'n dibynnu'n llwyr ar gefnogaeth pob leol. Diolch i bawb sydd wedi cefnogi gwaith y Banc Bro yn ystod 2013.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Roger a Doreen Haggar, Sycamores, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu mab Stephen ar ddiwrnod Nadolig.

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Cafwyd noson o frethyn cartref yng nghyfarfod mis Rhagfyr pan ddaeth Gwenda James, Tre Medd, sy'n aelod o'r gangen i arddangos y modd mae'n paratoi at y Nadolig trwy wneud addurniadau cywrain, anrhegion syml a choginio tymhorol. Yr oedd ganddi syniadau oedd yn agoriad llygad i `r rhan fwyaf o aelodau ac yn codi cywilydd ar nifer ohonom. Penderfynwyd mai'r Wildfowler fydd cyrchfan ein cinio blynyddol ar y 18fed o Ionawr ac edrychwn ymlaen yn fawr at ddathlu Santes Dwynwen.

### Prawf gyrru

Llongyfarchiadau i Dylan Edwards, Banc yr Eithin, ar basio ei brawf gyrru ddiwedd Rhagfyr.

### Priodas aur

Llongyfarchiadau i Llinos a Cynog Dafis, Cedrwydd, ar ddathlu eu priodas aur ar ddydd Calan eleni – fe'u priodwyd yng Nghapel y Garn ar 1 Ionawr 1964.

### BANC BRO

Enillwyr Ionawr 2014
1. Endaf Griffiths, Llandre £30
2. Trefor Owen, Clos y Ceiliog, Llandre £20
3. Wyn Morris, Penrhyn-coch £10

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693; e-bost : mairllo@hotmail.co.uk.

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**

**Ionawr**
19 Bugail
26 Terry Edwards

**Chwefror**
2 Noddfa Huw Roderick
9 10.00 Oedfa gomisiynu Zoe Glynne Jones yng Nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
16 Bugail – cymun; oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre
23 Y Parchg W.J. Edwards

## Cinio Nadolig

Cynhaliwyd cinio Nadolig blynyddol i bensiynwyr Bow Street a Llandre yn ysgol gynradd Rhydypennau ddechrau mis Rhagfyr. Hoffai pwyllgor y pensiynwyr ddiolch i'r ysgol am gael defnyddio eu cyflesterau ynghyd â staff cegin yr ysgol a baratodd y wledd fendigedig. Mawr ddiolch hefyd i'r merched a fu'n gweini ar y diwrnod. Croesawyd pawb i'r ysgol gan y Parchg Richard Lewis a chafwyd y weddi ei thraddodi gan y Ficer, y Parchg Peter James. Ar ôl y pryd bendigedig cafwyd pawb i ymuno i ganu rhai carolau gyda Miss Kathleen Lewis yn cyfeilio wrth y piano.

Cafodd y diwrnod ei gefnogi gan fanc Barclays, Aberystwyth o dan y nawdd Grwp Gwirfoddol Gweithwyr y Banc lle sicrhawyd grant o £420 tuag at gostau'r dydd.




Yn y llun gwelir aelodau o'r pwyllgor, Sheila, Ffion, Glenys, Glenwen, Lowri, Sue, Lyn, Gaenor, Brenda, Regina, Brenda, Meinir yn cynrychioli Banc Barclays, a thair cogyddes yr ysgol, Susan, Anne a Meinir.

## Diolch

Dymuna Gweneth Jones (Bryn Meillion gynt) ddiolch yn ddiffuant am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dymuno yn dda iddi yn ei chartref newydd ym Mharc Fictoria, Caerdydd.

## Capel y Garn

Mae'r cyfuniad o seindorf, carolau, a llwydwyll ddiwedd prynhawn mis Rhagfyr yn sicr o greu naws y Nadolig, a dyna a gafwyd ym maes parcio siop Spar Bow Street ar nos Sul yr 22ain o Ragfyr. Rhai o gyn-blant y Garn a'u ffrindiau oedd yn y band gyda Mr Alan Phillips yn eu harwain, a'u diben oedd denu pobl i'r oedfa Nadolig a oedd ar fin cael ei chynnal yn y Capel. Y Gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, oedd wedi trefnu Gwasanaeth Y Gair a'r Geiriau, a roddodd i ni ddetholiad helaeth ac amrywiol o ddarlleniadau addas a hudol, hen a newydd, ynghyd â datganiad ar y delyn, a charolau cynulleidfaol i gyfeiliant y band pres, gyda phaned a mins pei ar y diwedd.



Am naw o'r gloch ar fore'r Nadolig cafwyd gwasanaeth cymun yn y capel dan arweiniad y Bugail. Roedd y cyfle hwn i ddod at ein gilydd ac i weld rhai o blant yr eglwys a oedd wedi dod adref dros yr ŵyl yn fendithiol.

Am hanner awr wedi un ar ddeg ar nos Galan fe ddaethom ynghyd unwaith eto i ffarwelio â'r hen a chroesawu'r newydd. Roedd dehongliad yr Athro Dauvit Broun, o Brifysgol Glasgow, o arwyddocâd y Calan a'i arferion yn ychwanegiad amheuthun. Nos Sul Ionawr y pumed cynhaliwyd Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn y capel gyda nifer o aelodau'n cyfrannu'n wirfoddol i'r cyfarfod.

## Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr ar yr wythfed o'r mis pan ddaeth Vernon Jones, Gaerwen, atom i rannu ei atgofion am fynd o Steddfod i Steddfod. Syndod oedd clywed mai dim ond ar ôl gadael yr ysgol a mynd yn 'Was Bach', fel y cyfeiriai ato ef ei hunan, y dechreuodd ymddiddori mewn adrodd a llenydda. O ganlyniad i'w



Llun: Tony @Anthony Pugh Photography.

Dymuniadau gorau i Llinos Gruffudd (Bryncastell) ac Andrew Edwards (Aberystwyth) a briodwyd yng Nghapel Cemmaes dydd Sadwrn Rhagfyr 28ain, gan y Parchg Richard Lewis. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghemmaes.

lwyddiant daeth yn feirniad yn ogystal â chystadleuydd rheolaidd. Cofiodd am y tro pan oedd yn beirniadu mewn un eisteddfod a'i fam mewn eisteddfod arall ar yr un pryd yn ei gynrychioli yn nefod y cadeirio. Cofiai hefyd am feirniadu crwt bach or enw Wyn Morris – gweinidog y Garn belllach. Bu clywed enwau pobl sydd wedi ein gadael ers blynyddoedd, eu helyntion eisteddfodol a'u ffraethinebau yn fodd o ail greu yn y cof fychanfyd diwylliannol rhyfeddol yr eisteddfodau. Merched y Garn oedd yn arlwyo. Meinir Roberts arweiniodd y defosiwn gyda Kathleen Lewis wrth yr organ.

### Gwasanaeth plant

Fore Sul, 15 Rhafyr, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig go arbennig yng nghapel Noddfa. Hwn oedd y tro cyntaf i blant ysgolion Sul Noddfa a'r Garn gynnal eu gwasanaeth Nadolig ar y cyd, a chafwyd gwledd o ganu a llefaru, a thros ugain o blant o bob oed yn cymryd rhan. Hen stori o Rwsia – Papa Panov – oedd thema'r gwasanaeth, a chafwyd unawdau gan Rhys, Elain a Fabien, gyda'r rhai hŷn yn eu helpu i gyflwyno'r stori. Roedd lle yn y sêt fawr i lu o gymeriadau eraill stori'r geni, a phawb yn gwneud eu rhan â graen. Hoffai plant a rhieni'r ddwy ysgol Sul ddiolch yn gynnes iawn i Mair Lewis am drefnu'r cyfan, ac am ofalu bod sglein ar waith y plant. Diolch hefyd i unrhyw un arall a fu'n helpu. Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd parti hyfryd




Yr eisteddle yn cynnwys aelodau Pwyllgor Clwb Pêl-droed Bow Street, noddwyr, Yr Arglwydd Elystan Morgan a pherthnasau Emlyn Rees.

yn y festri, a bu Sion Corn yn llawn hwyl y Nadolig ac yn hael iawn unwaith eto eleni.

### Brysiwch wella

Dymunwn wellhad buan i Mair Lewis, Maes Ceiro, fu yn anhwylus dros y gwyliau.

### Gêm gwpan fawr

Ar brynhawn Sadwrn, 4ydd o Ionawr, cyn y gêm gwpan fawr rhwng Bow Street a Phenrhyn-coch, cafwyd seremoni fach i enwi eisteddle Cae Piod ar ôl y diweddar Emlyn Rees. Bu Emlyn yn Llywydd Clwb Pêl-droed Bow Street am gyfnod maith hyd at ei farwolaeth drist flwyddyn yn ôl, ac fe'i cofir fel cymwynaswr a chefnogwr brwd gyda'i gyfraniadau i'w gymuned yn pylu dim dros y degawdau. Dadorchuddiwyd arwydd newydd ar wal gefn yr eisteddle gan yr Arglwydd Elystan-Morgan, ac yn ystod ei anerchiad cyfeiriodd at ymroddiad di-baid Emlyn wrth iddo gynnal a chadw Maes Chwarae Rhydypennau, yn ogystal â bod yn flaenllaw wrth ddatblygu nifer o'r adnoddau a welir yno heddiw – yn cynnwys y 'stand'. Soniodd am yr haelioni a ddangosodd, nid yn unig tuag at y clwb pêl-droed a oedd mor annwyl iddo, ond at ei bentref, Bow Street, gan nodi y byddai'r eisteddle yn gofnod parhaol o gyfraniad Emlyn Rees i'w fro. Hefyd yn bresennol roedd Mel a Selwyn Evans, perthnasau Emlyn. Talodd Mel ddiolch i swyddogion Y Piod am gydnabod cyfraniad gwerthfawr ei ewythr i Glwb Pêl-droed Bow Street, gan ychwanegu y byddai'r eisteddle yn atgoffa pawb am waith da Emlyn am genedlaethau i ddod.

Er na fyddai Emlyn wedi bodloni â chanlyniad y gêm (Penrhyn-coch yn fuddugol o bedair gôl i un), byddai neb yn fwy balch nag ef fod yr eisteddle yn llawn ac yn cynnig lloches i'r cefnogwyr rhag y tywydd garw.







Holl artistiaid Cyngerdd Ynysoedd Pilipinas yn cloi y noson.

# Gwobrau cerddorol yn dod i Aber

Bydd un o ddigwyddiadau mwyaf y sin gerddoriaeth Gymraeg gyfoes yn dod i Aber fis Chwefror wrth i Wobrau'r Selar gael eu cynnal yn y Neuadd Fawr. Cynhaliwyd noson wobrau'r cylchgrawn cerddoriaeth, *Y Selar*, am y tro cyntaf ym Mangor llynedd, ond mae'r digwyddiad yn mudo i Aberystwyth eleni ac yn digwydd ar nos Sadwrn 15 Chwefror.

Mae'r digwyddiad yn benllanw'r flwyddyn i'r sin gerddoriaeth Gymraeg, ac yn gyfle i ddathlu llwyddiannau'r flwyddyn a fu trwy gyflwyno gwobrau i'r artistiaid sydd wedi creu'r mwyaf o argraff dros y flwyddyn. Rhain ydy'r unig wobrau cerddoriaeth Cymreig lle mae'r cyhoedd sy'n dewis yr enillwyr, ac mae croeso mawr i unrhyw un ymuno â'r parti ar y noson gyda thocynnau'n mynd ar werth ddechrau Ionawr.

Bydd llu o artistiaid gorau'r sin gerddoriaeth gyfoes yn perfformio mewn digwyddiad fydd â naws gŵyl go iawn iddi. Mae cynnal y digwyddiad yn y Neuadd Fawr yn ddatblygiad pwysig yn ôl Golygydd *Y Selar*, Gwilym Dwyfor.

"Rydan ni wedi bod yn cynnal y gwobrau mewn print ers rhai blynyddoedd bellach, ond llynedd oedd y tro cyntaf i ni gynnal digwyddiad byw. Roedd yr ymateb i'r noson ym Mangor yn anhygoel, ac mae'n amlwg fod galw mawr am hyn felly trwy symud i Aberystwyth rydan ni'n gwneud y noson yn fwy canolog ac o fewn cyrraedd i bob rhan o Gymru."

Ymysg yr artistiaid sy'n perfformio mae rhai o fandiau mwyaf poblogaidd y sin gan gynnwys Yr Ods, Candelas a Sŵnami. Mae'r Selar bob amser yn rhoi llwyfan i artistiaid newydd rhwng cloriau'r cylchgrawn a bydd hynny'n amlwg ar y noson hefyd gyda Kizzy Crawford, Casi Wyn ac enillwyr gwobr 'Band Newydd Gorau 2012', Bromas yn perfformio.

Mae disgwyl i rai cannoedd heidio i'r digwyddiad o bob rhan o Gymru, gyda thocynnau ar werth o siop docynnau Canolfan y Celfyddydau.

Bydd modd i chi weld newyddion diweddaraf Gwobrau'r Selar ar wefan y cylchgrawn, www.y-selar.com ac ar y ffrwd Twitter @y_selar, gyda digwyddiad Facebook hefyd wedi'i greu.

GWOBRAU'R SELAR

Annwyl Olygydd,

Rwy'n gweithio ar gynllun newydd i olrhain hanes a cherddoriaeth sioeau cerdd Cymraeg, ac i greu archif o'r hyn yr wyf yn eu casglu. Euros Rhys Evans sy'n cydlynu'r cynllun, a rydym yn gweithio'n galed i gynnwys cynifer o sioeau a chaneuon ag sy'n bosib yn yr archif.

Mae'n rhyfedd sut y mae gennym rhyw draddodiad yma yng Nghymru o ysgrifennu sioeau ar gyfer achlysur, ac yna i beidio a'i pherfformio byth eto!

Baswn i wrth fy modd cael atgyfodi rhai o'r sioeau yma a rhoi cyfle i ieuenctid y wlad i'w perfformio.

Bydd yr archif hefyd o fudd i ddisgyblion llais a drama gan y bydd cronfa newydd o ganeuon yna ar eu cyfer. Ariennir y cynllun gan y Coleg Cenedlaethol, ac mae'r archif yn cael ei rhedeg o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Apêl yw hon felly am wybodaeth neu memorabilia neu unrhyw beth i wneud â sioe a gafodd ei sgwennu/pherfformio yn yr hanner canrif ddiwethaf.

Nid oes ots pa mor fach neu fawr yw'r sioe, mi faswn wrth fy modd yn cael eu cynnwys yn yr archif.

Richard Vaughan
Swyddog Archif Sioeau Cerdd Cymraeg
8 Heol Coedcae,
Grangetown,
Caerdydd CF11 7AA
attic_studios@hotmail.com
07713158451

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
Blwyddyn Newydd Dda a phob hwyl yn 2014!
Gwnewch hi yn flwyddyn i'w chofio . . .
Bwyd Da . . . Cwmni Da . . .
Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com

Gwersi Gitâr
Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
CYSYLLTWCH!

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
DIGWYDDIADAU MORLAN:
Noson Gwis Morlan (7.30, 22 Ionawr - cwis i gapeli ac eglwysi lleol. Croeso i unrhyw un anfon tîm (neu dimau) o 4.
Diwrnod Cofio'r Holocost (12.00-1.30, 27 Ionawr) – cyfle i ymdawelu, myfyrio a chofio
Etty (7.30, 30 Ionawr) – drama arbennig am Iddewes ifanc oedd yn byw yn Amsterdam yn ystod yr Ail Ryfel Byd (www.ettyplay.org)
Manylion llawn ar wefan Morlan: www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

ytincer@googlemail.com




## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 18 Tachwedd 2013, yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Shân James, Dai Rees Morgan, Richard Owen ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Dai Mason. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Eirian Reynolds am gofnodi yng nghyfarfod mis Hydref yn absenoldeb anorfod y Clerc, a diolchodd hefyd i Trefor Davies am drefnu cerddoriaeth ar gyfer Sul y Cofio.

Materion yn codi – nid oedd datblygiadau wedi bod o ran y materion a nodwyd o dan y pennawd hwn ym mis Hydref.

Cynllunio – cais i adeiladu estyniad at Y Gelli, Penrhyn-coch – dim sylwadau.

Yn dilyn ymddiswyddiad Daniel Jones, roedd sedd wag ar y Cyngor. Nid oedd neb wedi gwneud cais am etholiad, felly roedd hawl gan y Cyngor i gyfethol aelod. Cynigiwyd y dylid cyfethol Dai Mason yn aelod a phasiwyd hyn yn unfrydol. Gan fod Daniel Jones yn Is-gadeirydd, roedd angen ethol un yn ei le. Fe gynigiwyd Shân James, a'i hethol hithau'n unfrydol.

Fe dynnodd Edwina Davies sylw'r Cyngor at y ffaith fod yr Eglwys ym Mhenrhyn-coch yn trefnu gŵyl coed Nadolig, a bod sawl corff a mudiad yn yr ardal wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan trwy gyfrannu coeden Nadolig fechan wedi ei haddurno i gyfleu rhyw thema arbennig. Gofynnodd a oedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn cymryd rhan, a chytunodd yr aelodau i wneud hynny. Cynigiodd y Cadeirydd gyfrannu'r goeden, a phenderfynwyd y byddai gwahoddiad i bob aelod gyfrannu dau addurn wedi ei wneud o goed er mwyn addurno'r goeden ar y thema 'Coed'.

Cyfraniadau ariannol i gymdeithasau lleol – penderfynwyd y byddai'r ceisiadau ar gyfer 2013/14 yn cael eu hystyried yn nghyfarfod mis Ionawr, ac y dylid rhoi hysbysiad i'r perwyl hwnnw yn Y Tincer, ar wefan Trefeurig ac ar yr hysbysfyrddau lleol.

Ni fyddai cyfarfod yn Rhagfyr oni bai bod angen brys, felly byddai'r cyfarfod arferol nesaf ar 21 Ionawr 2014.

Gan fod cais cynllunio yr oedd angen ymateb iddo cyn cyfarfod 21 Ionawr, fe gynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor nos Iau, 2 Ionawr 2014 yn Neuadd y Penrhyn. Roedd y Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair ac roedd Edwina Davies, Shân James, Dai Mason, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Jeff Pyne, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill.

Fe estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor i'r Clerc ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

Roedd y cais cynllunio (A130944) am dŷ ar dir y tu isaf i Rhandir, Penrhyn-coch. Roedd y sawl oedd yn gwneud y cais eisoes wedi gwneud tri chais am dŷ ar y cae y tu uchaf i Rhandir, ac roedd y ceisiadau hynny wedi eu gwrthod. Roedd gwrthwynebiad i'r cais presennol wedi ei dderbyn ar e-bost oddi wrth Dafydd a Rhiannon Ifans, Rhandir; gwrthwynebent hwy am dri rheswm: fod y mynediad i'r safle yn anaddas a pheryglus; nad oedd y tir yn rhan o safle a oedd wedi ei gymeradwyo ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol; fod y tir yn dir amaethyddol. Roedd dwy farn am y cais ymysg yr aelodau; roedd un aelod yn gefnogol gan ei bod yn teimlo fod yr ymgeisydd yn awyddus i ymgartrefu yn yr ardal a chyfrannu iddi. Fodd bynnag roedd aelodau eraill yn bryderus am sawl rheswm: doedd y tir ddim ar safle a gymeradwywyd yn y Cynllun Datblygu Lleol; roedd y fynedfa mewn man peryglus; roedd y cais am dŷ yn hytrach na byngalo; roedd yr ymgeisydd eisoes wedi anwybyddu rheolau cynllunio trwy gael carafán heb ganiatâd ar y cae uchaf ers tro byd. Cafwyd pleidlais ar y mater a phenderfynwyd trwy fwyafrif y dylid gwrthwynebu'r cais am resymau mynediad ac nad oedd y datblygiad yn addas i'r ardal. Fe wnaeth Gwenan Price a Dai Mason ymatal yn y bleidlais ac ni phleidleisiodd y Cadeirydd.

# Ysgol Penrhyn-coch

### Parti Nadolig

Cynhaliwyd ein parti Nadolig yn ystod wythnos olaf y tymor. Cafwyd gwledd o fwyd a danteithion amrywiol. Trefnwyd y parti gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y bwyd neu a fu wrthi'n gweini. Cafwyd llawer o hwyl yn mwynhau. Cafwyd ymweliad arbennig gan Siôn Corn a alwodd heibio i'r ysgol er yr holl brysurdeb. Cafwyd anrhegion ganddo i bob un o'r disgyblion a chanwyd cân iddo wrth iddo fynd ymlaen ar ei daith hir. Diolch i'r garej am eu rhoddion.

### Morrisons

Bu'r disgyblion yn canu yn Morrisons cyn y Nadolig. Bu'r criw gweithgar wrthi yn canu ac yn casglu arian. Codwyd swm da iawn o arian. Diolch i aelodau'r côr a'u rhieni am fod mor barod i ddod i'r gweithgareddau.

### Cinio Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Mercher olaf y tymor. Paratowyd y cinio gan Mrs Watkins a Miss Evans. Cafwyd gwledd o fwyd a diolch i'r ddwy ohonynt am eu holl waith caled yn paratoi.

### Sinema

Yn dilyn yr holl ymdrech ar gyfer y Sioe, cafodd y disgyblion gyfle i ymlacio gydag ymweliad i'r Sinema i wylio'r ffilm Monsters University.

### Christingl

Yn ôl y traddodiad, cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl ar brynhawn olaf y tymor yn yr Eglwys. Bu'r disgyblion wrthi yn gwneud un cristingl y teulu a chafwyd cyfle i gynnau y rhain yn ystod y gwasanaeth. Gwelwyd y staff yn cymryd rhannau blaenllaw yn y seremoni. Diolch i'r Parchedig Ronald Williams am ei anerchiad.

### Trên Cwmrheidol

Gwahoddwyd disgyblion yr ysgol i ganu yng ngorsaf trên Cwmrheidol. Bu'r disgyblion yn canu wrth i Siôn Corn gychwyn ar ei deithiau arbennig ar y tren. Aethpwyd yna i Matalan i ganu i godi arian tuag at MacMillan. Diolch i bawb a ddaeth i ganu.

### Cyngerdd Nadolig

Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu gwaith caled yn y Sioeau Nadolig. Cynhaliwyd ein sioeau yn Neuadd y Penrhyn. Cafwyd perfformiadau i'r Gymuned ar y prynhawn dydd Mercher a chafwyd criw da yn dod i wylio. Diolch i bawb a ddaeth. Cafwyd da berfformiad wedi'r nos. Y sioe eleni oedd "Pwdin 'Dolig" gan yr holl ysgol. Daeth criw da iawn i wylio'r disgyblion wrthi yn perfformio. Diolch i bawb a fu ynghlwm yn y sioe. Diolch i'r rhieni am eich gwaith yn paratoi y gwisgoedd ac yn cefnogi gyda dysgu'r geiriau. Trefnwyd lluniaeth gan y Pwyllgor Rhieni Athrawon.

### Cyngerdd Ger-y-lli

Ar nos Sadwrn cyntaf y mis, bu côr yr ysgol yn cymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig ym Eglwys y Santes Fair. Cyngerdd Nadolig Côr Ger-y-lli oedd yr achlysur ac ymysg yr artistiaid oedd Côr Godre's Garth o Bontypridd. Yn cymryd rhan hefyd gwelwyd Côr Ysgol Llanilar. Bu'r disgyblion yn canu tair cân fel côr yn ystod y cyngerdd ac yna cyfunodd y ddau gôr i ganu eitem fel rhan o berfformiad "Atgof o'r Sêr". Diolch i Gôr Ger-y-lli am y roi y cyfle i'r Côr i gymryd rhan. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi y noson ac i'r rhieni am ddod i wrando.

### Ffair Nadolig

Cynhaliwyd ein Ffair Nadolig ar nos Wener cyntaf mis Rhagfyr. Cefnogwyd y noson gan nifer o fusnesau lleol drwy stondinau neu roddion amrywiol. Diolch i bob un ohonynt am eu haelioni a'u parodrwydd i gefnogi yr ysgol. Llwyddwyd i godi dros £500 i'r ysgol.

### Ffair Aeaf

Llongyfarchiadau i Gwenan Jenkins a enillodd y wobr gyntaf yn yr Adran Ffotograffiaeth yn y Ffair Aeaf. Tynnodd lun o Bonterwyd yn yr eira.



Disgyblion yr ysgol yn gwisgo siwmperi Nadolig.








ytincer@googlemail.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

## Ysgol Craig yr Wylfa

Mae darllenwyr Y Tincer yn ymwybodol erbyn hyn fod Peter Leggett wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais i fod yn Bennaeth ar Ysgol Padarn Sant yn y dre.

Pan ddaeth i Graig yr Wylfa gyntaf, roedd ei frwdfrydedd amlwg a'i egni heintus wedi creu argraff ar bawb. Gyda chymorth y staff eraill, llwyddodd i godi hyder y trigolion lleol yn yr ysgol a chreu sefydlogrwydd gyda'i bersonoliaeth hynaws, ei weledigaeth glir a llawer iawn o waith caled.

Wrth siarad gyda phlant hŷn yr ysgol ar ddiwedd y tymor, roedd pawb o'r farn fod hon yn ysgol hapus a bod y staff dan arweiniad Mr Leggett, wedi llwyddo i greu cydbwysedd addas rhwng yr academaidd a'r allgyrsiol.



Ar ran pawb o gymuned yr ysgol rhaid ei longyfarch yn fawr ar ei lwyddiant a dymuno'r gorau iddo yn ei swydd newydd. Byddwn yn trysori'r atgofion sydd gennym amdano am flynyddoedd lawer i'r dyfodol.

Hoffwn ddymuno'r gorau i Mr Adam Lewis hefyd sydd wedi cael swydd newydd yn Ysgol Comins-coch. Dymuniadau gorau iddo ef hefyd.

Yn sgîl ymadawiad Mr Leggett, mae'n bleser gennym gyhoeddi mai ei olynydd fydd Mrs Natalie Davies, neu Miss Edwards fel y mae pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn ei hadnabod. Mae Miss Edwards wedi bod yn dysgu yn yr ysgol ers sawl blwyddyn bellach ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio gyda'r gymuned leol yma yn Borth.

Bydd Miss Lucy Hughes hefyd yn dechrau gyda ni yn llawn amser ym mis Ionawr.

Pob hwyl i'r ddwy yn eu swyddi newydd.

### Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd ein cyngerdd Nadolig eleni eto yn y Neuadd Gymunedol ac roedd hi'n hyfryd i weld y lle mor llawn a chymaint o drigolion lleol a chyn ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol unwaith eto. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r staff am baratoi'r plant mor arbennig ac i'r rhieni am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd.

Diolch arbennig i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser i drefnu. Roedd perfformiadau'r plant yn wych ac rwy'n siŵr fod pawb wedi mwynhau'r cyflwyniad yn faer iawn.

### Hafan y Waun

Am yr ail flwyddyn yn olynol aeth plant Ysgol Craig yr Wylfa i ddiddanu cyfeillion Hafan y Waun ychydig cyn y Nadolig. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r plant am yr eitemau amrywiol ac i'r trigolion a'r staff am eu croeso cynnes fel arfer.





### CAWL WINWNS CYMREIG NANTEOS

Mae'r cawl ysgafn a blasus yma wedi ei ysbrydoli gan flas winwns Cymreig. Mae blas y cennin a winwns Cymreig yn arbennig, ac mae'r cennin syfi yn rhoi lliw gwyrdd dirgrynol i'r cawl. Mae blas y cawl yn gwella wrth ychwanegu caws Gaerffili cyn ei weini. Mwynhewch!
Nigel - Chef Patron


#### Cynhwysion

- 2 bwys o gennin
- 1 winwnsyn gwyn mawr
- 6 clwstwr o winwns Cymreig
- 4 clwstwr o gennin syfi
- ¼ llwy de o bupur gwyn
- 2 peint o stoc llysiau
- 2 clofsen o arlleg
- 2 lwy fawr o fenyn

#### Dull

Torrwch y cennin a winwns Cymreig yn fân a chadwch y rhannau gwyn a gwyrdd ar wahân.
Coginiwch darnau gwyn y cennin a'r winwns Cymreig yn y menyn nes iddynt feddalu.
Ychwanegwch y garlleg, pupur gwyn a rhannau gwyrdd y cennin a'u coginio yn ysgafn am ddwy funud ychwanegol.
Ychwanegwch y stoc llysiau a'i fudferwi nes bod rhannau gwyrdd y cennin yn feddal, ond heb golli eu lliw.
Cymysgwch y cawl mewn cymysgydd bwyd nes ei fod yn llyfn, a rhowch drwy ridyll mân i mewn i sosban.
Rhowch rhannau gwyrdd y winwns Cymreig mewn sosban o ddŵr berwedig am funud a hanner nes iddynt edwino, ond yn cadw eu lliw.
Disbyddwch y rhain a rhowch i mewn i'r cymysgydd bwyd tra'n boeth.
Gwnewch hyn eto gyda'r cennin syfi, ond dim ond trideg eiliad fydd rhain eu hangen.
Disbyddwch y cennin syfi a'u hychwanegu i'r cymysgydd bwyd gyda'r winwns Cymreig.
Ychwanegwch hanner y cawl a'i gymysgu'n gyflym am un munud.
Rhowch y cymysgedd yma trwy ridyll i mewn i weddill y cawl, a fydd yn troi'n wyrdd disglair.





# Plas Nanteos

Taith a Phaned
Dewch i weld beth sydd mor arbennig am Blas Nanteos. Dewch am daith sydd yn sôn am hanes y plasty godidog ac ymweld â'r ystafelloedd moethus, unrhyw brynhawn o'r wythnos. Mwynhewch te prynhawn sydd yn cynnwys brechdanau, sgon jam a hufen, bara brith, cacennau a bisgedi, wedi eu pobi yn ffrês ar eich cyfer.

**Mae'r daith a phaned yma ar gael i unigolion a grwpiau, ac os oes deg person neu fwy cewch 10% oddi ar y bil os soniwch am yr hysbyseb yma.**

Cinio Dydd Sul
Achlysur arbennig, cwrdd â ffrindiau, teulu neu eisiau mwynhau cinio dydd Sul safonol heb y gwaith paratoi a'r holl lestri budur? Ymlaciwch neu archwiliwch yr ardd a'r goedwig eang o'i gwmpas cyn mwynhau eich cinio. Mae'r fwydlen yn newid yn wythnosol, ond mae yna bob amser asen o gig eidion, sy'n cael ei dorri wrth y bwrdd yn ogystal ag opsiwn llysieuol a physgodyn y diwrnod. Mae ein cinio tri chwrs yn cael ei weini bob dydd Sul rhwng, 12yp a 2yp.

**Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'n safle we, ac wrth gwrs, cynghorwn eich bod yn cadw bwrdd o flaen llaw.**

Nanteos, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4LU t:01970 600522
nanteos.com

# Ysgol Pen-llwyn

### Pantolig

Ein Sioe Nadolig eleni oedd Pantolig. Mae Pantolig yn sioe Nadolig sy'n llawn hwyl gyda chymeriadau pantomeim Sinderela yn cyfarfod â Mair, Joseff a'r baban Iesu yn y stabal ym Methlehem. Mae yna ddiweddglo annisgwyl ar y diwedd lle mae Sinderela yn priodi un o'r doethion. Roedd y plant wedi mwynhau yr holl waith paratoi a pherfformio, hyd yn oed y bechgyn oedd yn gorfod gwisgo fel y ddwy chwaer hyll a'r llys-fam gas!. Diolch i'r plant am eu gwaith caled ac i holl ffrindiau'r ysgol am ddod i weld y sioe a'n cefnogi.

### Cinio Nadolig

Diolch i Cathy, ein cogyddes, unwaith eto eleni am baratoi cinio Nadolig blasus iawn i ni yn yr ysgol. Roedd boliau pawb yn llawn dop o dwrci a sbrowts erbyn y prynhawn!.

### Parti Nadolig

Roedd rhaid cael parti Nadolig. Cafwyd ein parti ar y prynhawn olaf cyn cau am y Nadolig. Diolch i Cathy ein cogyddes am baratoi bwyd parti blasus iawn ar ein cyfer. Roedd boliau pawb yn llawn!!

### Sinema

Mae'n draddodiad pellach i fynd i'r sinema bob Nadolig. Doedd eleni ddim yn wahanol. Y ffilm eleni oedd Monsters University. Roedd pawb yn yr ysgol wedi mwynhau y ffilm yn fawr gan gynnwys holl staff yr ysgol.

### Croeso

Ar ddechrau mis Ionawr, fe wnaethon ni groesawu tri disgybl newydd i'n plith, sef Hedd, Emelia ac Amelia. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

### Ffair Nadolig

Cawsom Ffair Nadolig eleni eto. Diolch i bawb am ddod i gefnogi ni ar noson mor arw. Braf oedd gweld cymaint wedi mwynhau, ac aros i fwynhau er gwaetha'r ffaith fod y trydan wedi pallu!. Diolch yn fawr iawn am wneud y noson mor lwyddiannus.



Y Doethion



Y Bugeiliaid


SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL
A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd,
Estyniadau,
Gwaith Carreg,
Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

ytincer@
googlemail.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# Ysgol Rhydypennau


Parti Nadolig Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

### Gwasanaeth Nadolig

Ar y 10fed o Ragfyr cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yr ysgol. Eleni aethpwyd allan i'r gymdeithas a chynnal y perfformiad yng Nghapel Y Garn. Thema'r noson oedd 'Stori'r Geni' a chafwyd gwledd o ganu, actio a llefaru. Yr oedd hi'n braf gweld Y Garn yn orlawn a'r gynulleidfa i gyd yn datgan eu gwerthfawrogiad ar ddiwedd y perfformiad. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r gofalwr ac aelodau blaenllaw'r Garn am eu cydweithrediad a'u cyngor yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiad.

Cafwyd cyngerdd ardderchog hefyd gan Yr Uned Feithrin ar y 10fed a'r 11eg o Ragfyr yn neuadd yr ysgol. O ganlyniad i'r perfformiadau yma, codwyd dros fil o bunnau tuag at gronfa'r ysgol.

### Cinio Nadolig

Yn dilyn y traddodiad blynyddol, cynhaliwyd cinio Nadolig i henoed yr ardal ar y 7fed o Ragfyr yn neuadd yr ysgol. Bu Mrs Meinir Fleming a'i staff yn brysur iawn yn paratoi'r wledd i 80 o bobl eiddgar iawn. Cytunodd pawb mai dyma'r cinio gorau eto! Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol.

Ar y 18fed o Ragfyr, bu Mrs Flemimg a staff y gegin yn brysur eto yn paratoi cinio Nadolig i'r plant a'r staff. Yn ystod y wledd, cyflwynwyd anrhegion o ddiolch i holl staff y gegin am eu gwasanaeth ac, wrth gwrs, am y bwyd blasus drwy'r flwyddyn.

### Clwb Cant

Canlyniad Rhagfyr :
1af-£50-Pearl Warrington, 47 Greenfield Street.
2il-£30-Llywelyn Bowen Jones.
3ydd-£20-Mair Lewis Maes Ceiro.

### Band

Ar yr 20fed o Ragfyr fe aeth Mr Allan Philips, athro peripatetig pres y sir, â band pres yr ysgol i ddiddanu henoed Cartref Tregerddan. Mae'r ymweliad hwn yn ddigwyddiad traddodiadol bellach ac mae'r henoed yn disgwyl yn eiddgar i glywed dawn yr offerynnwyr. Diolch i Mr Phillips am ei arweiniad a'i barodrwydd i ddangos y talentau lleol yn y gymuned.

### Gweithgareddau

Bu plant yr ysgol yn ffodus iawn yn ddiweddar, gan eu bod wedi cael y cyfle i fwynhau dau barti Nadolig! Trefnwyd parti gan bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol rhwng 6:30 a 8 y.h. ar y17eg o Ragfyr. Roedd y parti yn agored i bawb yn yr ysgol a chynhaliwyd y dathliadau yn neuadd yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r noson, i Mrs Meinir Fleming am y lluniaeth blasus, i Mr Rhodri Morgan am ei ddisgo hynod o dda, i noddwr y noson sef Clwb Pêl-Droed Bow Street ac yn olaf; diolch i Siôn Corn am dreulio ychydig o'i amser prin i ddosbarthu anrhegion cynnar i'r plant ffodus ar y noson.


Cinio Nadolig


Cyngerdd Nadolig Yr Uned Feithrin

Trannoeth fe aeth blwyddyn 1 i 6 a'r dosbarth Derbyn i'r sinema i fwynhau y ffilm, 'Monsters University'.

Ar y 19eg o Ragfyr, trefnwyd parti Nadolig i'r holl blant yn ystod oriau'r ysgol. Yn ystod y miri, cafodd y plant gyfle i fwynhau gwledd o fwyd blasus a chystadleuaeth dawnsio disgo i orffen y dathliadau.


Blwyddyn 1 a 2 yn perfformio yn Y Garn

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

# Tasg y Tincer

Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chi. Ddaru chi fwynhau'r Nadolig a'r Calan? Diolch i'r holl rai ledled Cymru fu'n lliwio llun Siôn Corn yn y rhifyn diwethaf. **Da iawn chi** – dyma'r enwau: Jessica Mai Evans, Bow Street; Harri Van de Vyver, Aberhonddu; Iestyn Tobias, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd; Elain Williams, Aberteifi; Lois Medi, Llandre; Elin Pierce Williams, Bow Street; Elen Madrun Llewelyn, Llandre; Betsan Fychan, Penrhyn-coch; Gwion Iwan Ebenezer Ellis, Gwaelod-y-garth; Ela Glain Ebenezer Thomas, Llandaf; Lily-May Welsby, Aberystwyth; Nel Davies, Caernarfon.

Yr enw ddaeth o'r het y tro hwn oedd **Ela Glain** o Landaf. Llongyfarchiadau!

Rwy'n siŵr bod rhai ohonoch wedi bod yn hel calennig o ddrws i ddrws. Tybed a fuoch chi'n canu'r pennill sy'n dechrau fel hyn?

*Dydd calan yw hi heddiw,*
*rwy'n dyfod ar eich traws*
*i ofyn am y geiniog,*
*neu grwst, a bara a chaws.*

Wyddoch chi o ble daw'r enw *Ionawr*? Mae'n debyg mai o'r gair Lladin *Janus* y mae'r enw'n dod, ac mae gan sawl iaith air tebyg am fis cyntaf y flwyddyn, yn does? Janvier (Ffrangeg), Januar (Daneg a Norwyeg), Genver (Cernyweg) – beth am ddod o hyd i rai eraill? Duw Rhufeinig oedd Janus, ac roedd ganddo ddau wyneb; un yn edrych yn ôl ar y gorffennol, ac un yn edrych ymlaen at y dyfodol. Dyna a wnawn ni'n aml ar ddechrau'r flwyddyn – edrych yn ôl ar y flwyddyn sydd newydd fynd heibio, ond edrych ymlaen yn fawr at y flwyddyn sydd wedi cyrraedd.

Y mis hwn, beth am liwio'r plant yn croesawu 2014 ac yn mwynhau'r parti? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Chwefror 1af.... a ta tan toc!


Ela Glain




**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 365 | IONAWR 2014